



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Trefniadau Asesu: Is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Dyddiad cyhoeddi: 6 Medi 2021
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 31 Hydref 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn
Saesneg.
This document is also available in English.

Trefniadau Asesu: Is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Trosolwg

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar bedwar darn o is-ddeddfwriaeth y bydd angen eu datblygu o ganlyniad i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf) a basiwyd gan Senedd Cymru ar 9 Mawrth 2021 ac a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2021. Mae Rhan 4: Asesu a Chynnydd: Trefniadau Asesu yn manylu ar y darpariaethau deddfwriaethol yn y Ddeddf mewn perthynas â threfniadau asesu ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Sut i ymateb

Dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gael eu hanfon drwy e-bost/drwy'r post i'r cyfeiriad isod, i gyrraedd erbyn 31 Hydref 2021 fan bellaf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Cyhoeddwyd [Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu](#) ym mis Ionawr 2020. Mae'n amlinellu egwyddorion allweddol a diben asesu, gan roi arweiniad clir i ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu trefniadau asesu eu hunain o dan y cwricwlwm newydd .

Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar llyw.cymru/ymgyngoriadau

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

Cangen Asesu
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
e-bost: asesu@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol y byddwch yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gellir comisiynu'r gwaith hwn i'w gwblhau gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gcontract y caiff unrhyw waith o'r fath ei wneud. Mae amodau a thelerau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddedig hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Cynnwys	Tudalen
Cefndir	1
Trosolwg	1
Y camau nesaf	2
Bwriad y polisi a'r manylion deddfwriaethol am gynigion i ddatblygu/diwygio Rheoliadau	2-3
Dyletswydd i wneud trefniadau asesu – Rhan 4 Adran 56(1) o'r Ddeddf	4-10
Pŵer Gweinidogion Cymru i roi Cyfarwyddyd mewn perthynas â hybu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd – Adran 57 o Ddeddf 2021	10-14
Deddfwriaeth ar drefniadau trosglwyddo ac adrodd i rieni i gyd-fynd â threfniadau asesu newydd ac ethos y Cwricwlwm i Gymru	14-19

Cefndir

1 Cyhoeddwyd [Fframwaith Cwricwlwm i Gymru](#) i ysgolion ym mis Ionawr 2020. Cyhoeddwyd canllawiau drafft ar drefniadau asesu fel rhan o'r fframwaith hwn ac maent ar gael yn [Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu](#). Mae'r canllawiau yn nodi mai diben asesu yn y Cwricwlwm i Gymru yw cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol ar hyd y continwrm dysgu o 3 i 16 oed. Mae'r trefniadau asesu yn rhan greiddiol a sylfaenol o ddylunio'r cwricwlwm, sy'n helpu ymarferwyr a dysgwyr i nodi'r cynnydd a wnaed, nodi'r camau nesaf y bydd angen eu cymryd i wneud cynnydd a'r addysgu a'r dysgu sydd eu hangen i helpu pob dysgwr unigol i symud ymlaen i'r camau nesaf.

1.1 Cyn i'r canllawiau gael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2020, cynhaliwyd ymgynghoriad eang a helaeth arnynt, a lywiodd y syniadau ynghylch asesu ymhellach. Wrth ddatblygu'r canllawiau, bu'r Grŵp Cynghori ar Asesu yn allweddol a gwnaethom weithio gyda'r grŵp hwnnw i'w cyd-greu. Roedd y grŵp yn cynnwys ymarferwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ac ysgolion arbennig a lleoliadau gofal plant/meithrin nas cynhelir ond a gyllidir gan yr awdurdod lleol i ddarparu addysg gynnar i ddysgwyr 3 a 4 oed, yn ogystal ag academyddion a chynrychiolwyr o Gonsortia Rhanbarthol, Estyn a Cymwysterau Cymru.

1.2 Diben y canllawiau drafft, a'r canllawiau ehangach ar y Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ochr yn ochr â nhw, oedd helpu ysgolion i ddechrau meddwl am ddylunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu. Mae Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu yn rhoi amlinelliad o egwyddorion allweddol a diben asesu, gan adlewyrchu cyfeiriad clir i ysgolion wrth iddynt ddechrau ystyried datblygu eu trefniadau asesu yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.

1.3 Cafodd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Deddf 2021) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2021. Mae'r Ddeddf yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol diwygiedig i helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a arweinir gan ddibenion a threfniadau asesu i Gymru, a ddaw i rym ar gyfer blynyddoedd 1 i 6 o fis Medi 2022, yn ôl y bwriad. Ar gyfer blwyddyn 7, gall ysgolion sy'n teimlo eu bod yn barod ddewis dechrau addysgu'r cwricwlwm newydd o'r dyddiad hwnnw. I'r rhai nad ydynt yn barod eto, byddant yn dechrau addysgu'r cwricwlwm ar gyfer blwyddyn 7 am y tro cyntaf yn 2023, ynghyd â'u dosbarthiadau blwyddyn 8. Mae Rhan 4 o Ddeddf 2021: Asesu a Chynnydd yn cynnwys y darpariaethau deddfwriaethol mewn perthynas â'r trefniadau asesu ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi sut y bwriadwn ddefnyddio'r pwerau o dan Ran 4 o Ddeddf 2021 i wneud rheoliadau ynglŷn ag asesu a chynnydd ac yn ceisio barn ar ein dull polisi bwriadedig.

Trosolwg

1.4 Mewn ymateb i Ddeddf 2021, rydym wedi nodi bod angen gwneud neu ddiwygio pedwar darn o is-ddeddfwriaeth mewn perthynas ag asesu o dan y Cwricwlwm i Gymru.

Caiff dau ddarn newydd eu gwneud o dan Ddeddf 2021:

- **Adran 56 – Dyletswydd i wneud darpariaeth ynghylch trefniadau asesu – Rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i “person perthnasol” wneud, gweithredu ac adolygu trefniadau asesu;**
- **Adran 57 – Hybu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd – sy'n caniatáu i Gyfarwyddyd gael ei roi i berson perthnasol ynghylch y camau y mae angen eu cymryd i hybu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.**

Bydd angen diwygio dwy set o reoliadau i sicrhau bod y gofynion presennol yn unol â Deddf 2021 ac ethos y cwricwlwm a'r trefniadau asesu:

- ***Trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd*** – a reoleiddir ar hyn o bryd o dan Reoliadau Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006;
- ***Rhoi adroddiad i rieni/gofalwyr*** – a reoleiddir ar hyn o bryd o dan Reoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011

1.5 Mae'r darnau hyn o is-ddeddfwriaeth, gyda'i gilydd, yn amlinellu ein bwriadau ynghylch asesu mewn ysgolion, ei gydberthynas â chynnydd a throsglwyddo ac, yn bwysig ddigon, sut yr ymgysylltir â rhieni a gofalwyr yn hyn o beth. Felly, mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar bob un o'r pedwar maes hyn er mwyn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'n bwriadau polisi.

1.6 Bydd nifer o ddiwygiadau canlyniadol y bydd angen eu gwneud o ganlyniad i'r cynigion deddfwriaethol a nodir yn y ddogfen hon. Ymdrinnir â'r rhain yn y ffordd arferol wrth baratoi is-ddeddfwriaeth.

Y camau nesaf

2. Fe'ch gwahoddir i gyflwyno eich barn ar y cynigion hyn. Dylid e-bostio ymatebion erbyn 31 Hydref 2021 fan bellaf. Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech i'ch ymateb aros yn ddienw, nodwch hynny yn eich ymateb.

2.1 Yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, y bwriad yw y daw'r is-ddeddfwriaeth a wneir i rym o fis Medi 2022. Mae'n bosibl y caiff Rheoliadau Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006 eu gwneud yn ddiweddarach. Caiff hyn ei gadarnhau ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Bwriad y polisi a'r manylion deddfwriaethol am gynigion i ddatblygu/diwygio Rheoliadau

Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru

3 Cwricwlwm a arweinir gan ddibenion lle mae cynnydd dysgwyr wrth ei wraidd yw'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd y Cwricwlwm i Gymru yn gymwys i blant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed sy'n mynychu ysgolion a gynhelir; y rhai mewn lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir; a'r rhai y mae eu haddysg yn ddarostyngedig i drefniadau o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 1996.

3.1 Mae Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn symud i ffwrdd oddi wrth Gwricwlwm Cenedlaethol a ragnodir drwy Raglenni Astudio, Camau a Chyfnodau Allweddol ac, yn lle hynny, mae'n rhoi cyfle i bob ysgol yng Nghymru ddylunio ei chwricwlwm ei hun yn unol â dull gweithredu cenedlaethol sy'n sicrhau cysondeb.

3.2 O dan y Cwricwlwm i Gymru, mae cynnydd dysgwyr yn digwydd ar hyd un continwwm dysgu. Diben asesu yn y Cwricwlwm i Gymru yw cefnogi a galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol ar hyd y continwwm, gan sicrhau y caiff ei gefnogi a'i herio'n briodol.

Mewn gwrthgyferbyniad â'r dull asesu presennol, mae asesu yn y Cwricwlwm i Gymru yn rhan greiddiol o ddylunio'r cwricwlwm ac ni ellir gweld y gwahaniaeth rhwng asesu ac addysgu a dysgu. Dylai gyfrannu at ddatblygu darlun cyfannol o'r dysgwr – ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu a'i feysydd i'w datblygu – er mwyn llywio'r camau dysgu ac addysgu nesaf. Yn bwysig ddigon, ni ddylai asesu gael ei ddefnyddio i lunio barn untro ar gyflawniad cyffredinol dysgwr ar oedran neu adeg benodol yn erbyn disgrifyddion na meini prawf ar sail 'ffit orau'.

3.3 Gan y bydd y camau a'r cyfnodau allweddol presennol yn cael eu disodli gan gontinwmm dysgu, byddwn yn symud oddi wrth asesuadau crynodol gan athrawon ar ddiwedd pob cam a chyfnod allweddol i'w cynnal ar ddiwedd pob blwyddyn, tuag at system lle y caiff asesu ei ymgorffori mewn ymarfer o ddydd i ddydd ac na ellir gweld y gwahaniaeth rhwng asesu ac addysgu a dysgu.

3.4 Ysgolion unigol fydd yn penderfynu ar y trefniadau asesu sydd fwyaf priodol i'w helpu i gyflwyno eu cwricwlwm a dylai hyn gael ei wneud fel rhan o'r broses o ddylunio eu cwricwlwm er mwyn sicrhau y caiff y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud ei gynllunio'n briodol, ei ddeall a'i gefnogi.

Canllawiau Statudol

3.5 Mae Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu, sy'n rhan o Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, yn amlinellu rôl asesu yn y cwricwlwm ac egwyddorion asesu. Mae'r canllawiau hefyd yn manylu ar yr hyn y dylid ei ystyried wrth ddylunio a chyflwyno trefniadau asesu yn y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys cefnogi prosesau megis gwaith cynllunio trosglwyddo a chyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr.

3.6 Mae sybsidiaredd yn un o'r cysyniadau allweddol a amlinellir yn [Dyfodol Llwyddiannus](#), sy'n rhoi mwy o ryddid a hyblygrwydd i ysgolion ddylunio cwricwlwm sy'n briodol i'w dysgwyr a'u cyd-destun, ond o fewn cyfres fras o ddyletswyddau cenedlaethol. Byddwn yn cymhwyso'r un cysyniad hwn o sybsidiaredd at y trefniadau asesu.

3.7 Fodd bynnag, er mwyn sicrhau y caiff yr egwyddorion asesu fel y'u nodwyd yn y canllawiau drafft eu cymhwyso wrth wneud, gweithredu a diwygio trefniadau asesu, bydd angen i ysgolion a lleoliadau roi sylw i Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu. Er mwyn cyflawni hyn, caiff y canllawiau eu cyhoeddi fel canllawiau statudol yn unol ag adran 71 o Ddeddf 2021.

3.8 Mae'r canllawiau yn amlinellu'r egwyddorion a'r dull gweithredu arweiniol ac yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion ddylunio eu trefniadau asesu eu hunain i gefnogi'r cwricwlwm a fabwysiadwyd ganddynt yn unigol. Ynghyd â'r is-ddeddfwriaeth a nodir yn yr adrannau nesaf, bydd hyn yn rhoi fframwaith deddfwriaethol er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

Dyletswydd i wneud trefniadau asesu. – Rhan 4 Adran 56(1)

4 Ar hyn o bryd, gwneir darpariaeth ar gyfer trefniadau asesu mewn nifer o offerynnau statudol a fydd, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud ag asesuadau personol ar-lein, yn peidio â bod yn gymwys ar ôl i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno.

Ar hyn o bryd, amlinellir y trefniadau asesu yn y gorchmynion canlynol:

- Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004
- Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005
- Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013
- Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2014
- Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015
- Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2015

4.1 Mae'r gorchmynion yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â threfniadau asesu'r cwricwlwm presennol. Yn sgil pasio Deddf 2021 a'r gofyniad i roi trefniadau'r cwricwlwm newydd ar waith o fis Medi 2022, bydd y rheoliadau asesu presennol yn peidio â bod yn gymwys i'r blynyddoedd hynny sy'n trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, byddant yn dal i fod mewn grym i'r rhai sy'n parhau i astudio'r cwricwlwm presennol. Cânt eu dirymu'n derfynol pan fydd y cwricwlwm newydd i Gymru wedi'i gyflwyno i bob blwyddyn ysgol.

4.2 Felly, o dan y Ddeddf, mae'n ofynnol gwneud rheoliadau sy'n nodi manylion y trefniadau asesu ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru i'r disgyblion hynny y mae wedi cael ei gyflwyno iddynt.

4.3 Disgrifir trefniadau asesu ar wyneb Deddf 2021 fel trefniadau ar gyfer asesu cynnydd dysgwyr unigol yn erbyn cwricwlwm perthnasol, y camau nesaf yn eu cynnydd, a'r addysgu a dysgu sydd eu hangen i symud ymlaen i'r cam nesaf.

4.4 Byddwn yn gwneud rheoliadau o dan adran 56 o Ddeddf 2021 i osod dyletswydd ar y personau perthnasol i wneud, gweithredu ac adolygu trefniadau asesu. Ystyr person perthnasol yma yw:

- (a) pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
- (b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
- (c) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;
- (d) yr athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion;
- (e) pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion;
- (f) person sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o [Ddeddf Addysg 1996](#) (p. 56).

4.5 Gan fod y dyletswyddau ynghylch gwneud, gweithredu ac adolygu trefniadau asesu yn benodol i natur y lleoliad y maent yn ymwneud ag ef, nodir y trefniadau ar gyfer ysgolion neu feithrinfeydd a gynhelir, darparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion ac Addysg heblaw yn yr ysgol ar wahân yn y paragraffau canlynol. Mae paragraffau olaf yr adran hon yn nodi natur y trefniadau asesu y dylid eu gwneud.

Dyletswyddau Bwriadedig i ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir

Gwneud Trefniadau Asesu

4.6 Mae asesu yn chwarae rôl sylfaenol i sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cael ei gefnogi i wneud y cynnydd priodol ar hyd y continwrm dysgu. Mae'n rhan annatod o addysgu a dysgu ac mae'n gofyn am bartneriaeth effeithiol rhwng y rhai dan sylw, gan gynnwys y dysgwr.

4.7 Dylai trefniadau asesu asesu a chefnogi cynnydd y dysgwr unigol drwy gwricwlwm yr ysgol, drwy helpu i ddatblygu darlun cyfannol o'r dysgwr – ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu, a'i feysydd i'w datblygu er mwyn sicrhau y caiff ei gefnogi a'i herio'n briodol.

4.8 Er mwyn mabwysiadu'r trefniadau asesu mwyaf priodol, bydd angen i ysgolion a lleoliadau ystyried yr hyn y bydd dysgwyr yn cael ei addysgu, sut y caiff ei addysgu a'r deilliant dysgu a fwriedir. Yna, gellir defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro a chefnogi cynnydd dysgwr a theilwra'r addysgu i lywio cynnydd a sicrhau'r cynnydd mwyaf posibl drwy gwricwlwm yr ysgol.

4.9 O ystyried natur greiddiol asesu i ddylunio'r cwricwlwm, rydym felly yn bwriadu gosod dyletswydd ar y pennaeth i wneud trefniadau asesu ar gyfer dysgwyr yr ysgol. Mae'n rhaid i'r trefniadau asesu hyn asesu'r cynnydd a wnaed gan ddysgwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm a fabwysiadwyd, y camau nesaf yn eu cynnydd a'r addysgu a'r dysgu sydd eu hangen i wneud y cynnydd hwnnw. Ni fyddwn yn rhagnodi natur y trefniadau hynny, heblaw bod yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r nodweddion a nodir ym mharagraffau 4.31-4.39, ac mai mater i'r ysgol fydd penderfynu arnynt i gefnogi cynnydd y dysgwr o fewn ei chwricwlwm yn y ffordd orau bosibl. Dylai'r pennaeth gynllunio amrywiaeth o ddulliau a thechnegau asesu sy'n addas at y diben ac sy'n cefnogi cynnydd ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

4.10 Rydym yn cydnabod y bydd y dull gweithredu hwn yn arwain at rywfaint o amrywio. Fodd bynnag, mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn golygu symud i ffwrdd oddi wrth ddull addysgu a dysgu sy'n seiliedig ar un ateb i bawb, gan gynnwys asesu. O ystyried y bydd ysgolion yn gyfrifol am ddylunio eu cwricwlwm eu hunain, mae'n hanfodol eu bod hefyd yn gyfrifol am ddylunio eu trefniadau asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr o fewn eu cwricwlwm a sicrhau y caiff pob dysgwr ei herio a'i gefnogi'n briodol. Caiff y graddau y mae'r trefniadau hyn yn amrywio eu lliniaru drwy'r cod cynnydd gorfodol a'r canllawiau statudol.

4.11 Mae Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu yn nodi y dylai ysgolion ac ymarferwyr, wrth gynllunio a chyflwyno profiadau dysgu, fod yn glir ynghylch rôl benodol pob asesiad sy'n cael ei gynnal, a sut y bydd y ddealltwriaeth sy'n deillio o'r asesu yn cael ei defnyddio, a pham. Er mwyn hwyluso hyn, bydd angen ystyried a thrafod trefniadau asesu ar yr un pryd â'r trafodaethau ynglŷn â dylunio'r cwricwlwm ei hun.

4.12 Felly, rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid ddylunio'r trefniadau asesu ar yr un pryd ag y byddant yn dylunio cwricwlwm eu hysgol.

Rhoi Trefniadau Asesu ar Waith

4.13 Penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir sydd â dyletswyddau mewn perthynas â mabwysiadu cwricwlwm. Gan fod trefniadau asesu yn sylfaenol i addysgu a dysgu, ac o ystyried eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r cwricwlwm, byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth a'r corff llywodraethu fod yn gyfrifol am roi trefniadau asesu ar waith mewn perthynas â'r cwricwlwm a fabwysiadwyd ganddynt ar gyfer eu hysgol.

4.14 Bydd darpariaeth ar gyfer rhoi trefniadau asesu ar waith yn rhedeg ochr yn ochr â mabwysiadu'r cwricwlwm.

Adolygu a Diwygio

4.15 Dylai cynnydd mewn dysgu bob amser fod wrth wraidd y broses o ddylunio'r cwricwlwm ac mae'n rhaid i ymarferwyr ddefnyddio'r cod cynnydd ag egwyddorion cynnydd i lywio'r ffordd y maent yn ymdrin â chynnydd. Ategir egwyddorion cynnydd gan ddisgrifiadau dysgu sy'n rhoi canllawiau manylach ar gynnydd ym mhob maes dysgu a phrofiad. Mae'r disgrifiadau hyn yn mynegi'r hyn a olygir wrth gynnydd dysgwr ar hyd y continwm dysgu ac yn cynnig cyfeirbwyntiau o ran cyflymder y cynnydd hwnnw. Dylai trefniadau asesu alluogi ymarferwyr ac arweinwyr yn yr ysgol i ddeall a yw gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwylidig.

4.16 Dylid defnyddio hyn i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yng nghwricwlwm yr ysgol a'i hymarfer o ddydd i ddydd, gan gynnwys ystyried sut mae anghenion dysgwyr fel unigolion wedi cael eu diwallu. Mae'r ffocws pwysig hwn yn fodd i ysgolion sicrhau bod eu cwricwlwm, a'r dysgu a'r addysgu, yn helpu i godi safonau yn ogystal â helpu i wella cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig ac mae'n bwysig o ran cyfrannu at broses hunanwerthuso ysgol a'i gwelliant parhaus.

4.17 Mae Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gwricwlwm a fabwysiedir gael ei adolygu'n barhaus, a'i ddiwygio os bydd angen, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fodloni'r gofynion cyfreithiol ynglŷn â'r cwricwlwm, gan gynnwys darparu ar gyfer cynnydd priodol. Mae'r wybodaeth a ddaw o'r trefniadau asesu yn rhan allweddol o'r broses adolygu honno. Felly, bydd angen adolygu trefniadau asesu yn barhaus a'u diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi cwricwlwm yr ysgol a chynnydd effeithiol i ddysgwyr.

4.18 Felly, rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir neu ysgolion meithrin a gynhelir adolygu'r trefniadau asesu a gwneud diwygiadau priodol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi cynnydd dysgwyr o fewn y cwricwlwm a fabwysiadwyd. Y pennaeth a'r corff llywodraethu fydd yn gyfrifol am benderfynu sut y dylid adolygu'r trefniadau asesu a dylai hyn fod yn rhan o gylch adolygu a diwygio'r cwricwlwm.

Lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir

4.19 Bydd gofyniad hefyd i wneud, gweithredu ac adolygu trefniadau asesu mewn perthynas â chwricwlwm sydd wedi cael ei ddylunio a'i fabwysiadu gan leoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir. Bydd yn ofynnol gwneud trefniadau asesu ar yr un pryd â ddylunio'r cwricwlwm, a'u hadolygu ar yr un pryd ag y caiff y cwricwlwm ei adolygu.

4.20 Er mwyn cydnabod yr heriau y mae'r sector yn eu hwynebu o ran eu gallu i ddatblygu cwricwlwm, mae Deddf 2021 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi cwricwlwm addas ar gyfer lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir. Fel y cyfryw, rydym yn bwriadu rhoi'r cyfrifoldeb am adolygu a diwygio'r trefniadau asesu a wneir mewn perthynas â chwricwlwm a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, i Weinidogion Cymru. Caiff y trefniadau asesu eu hadolygu yn unol â'r adolygiad o'r cwricwlwm cyhoeddedig, h.y. caiff ei adolygu'n barhaus, a'i ddiwygio os bydd angen, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fodloni'r gofynion cyfreithiol o ran y cwricwlwm, gan gynnwys darparu ar gyfer cynnydd priodol.

4.21 Gall darparwyr lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir hefyd ddylunio a mabwysiadu cwricwlwm addas heblaw'r un a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Pan fydd darparwr yn dewis gwneud hyn, rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol iddo wneud trefniadau asesu i gefnogi'r cwricwlwm hwnnw a hefyd fod yn gyfrifol am roi'r trefniadau asesu hynny ar waith a'u hadolygu.

4.22 O dan y naill sefyllfa a'r llall, dylai'r egwyddorion a'r dull asesu a nodwyd yn Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu gael eu defnyddio i lywio'r ffordd y caiff trefniadau asesu eu gwneud.

Uned Cyfeirio Disgyblion

4.24 Mae Deddf 2021 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli (os oes un) a'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion mewn perthynas â gwneud, adolygu a diwygio cwricwlwm. O ystyried bod trefniadau asesu yn rhan o'r broses o ddylunio cwricwlwm, byddwn yn rhoi cyfrifoldebau mewn perthynas â gwneud, adolygu a diwygio trefniadau asesu ar bob un o'r tri pharti.

4.25 Yn debyg i'r cyfrifoldebau mewn perthynas â'r cwricwlwm, rydym yn bwriadu rhoi cyfrifoldeb am roi'r trefniadau asesu hyn ar waith ar yr athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am yr uned.

4.26 Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r trefniadau asesu hyn gael eu gwneud ar yr un pryd â dylunio'r cwricwlwm, a'u hadolygu a'u diwygio yn unol â chylch adolygu'r cwricwlwm, h.y. bod yn rhaid i'r cwricwlwm gael ei adolygu'n barhaus a'i ddiwygio os bydd angen, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fodloni'r gofynion cyfreithiol o ran y cwricwlwm, gan gynnwys darparu ar gyfer cynnydd priodol, a rhoi sylw dyledus i Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu wrth ddatblygu trefniadau asesu.

Addysg mewn lleoliad heblaw yn yr ysgol

4.27 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu addysg addas mewn ysgol neu addysg heblaw yn yr ysgol ar gyfer y plant hynny o oedran ysgol gorfodol na fyddant o bosibl yn cael addysg addas am unrhyw gyfnod oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud ar eu cyfer. Mae Deddf 2021 yn gosod gofynion ar awdurdod lleol i sicrhau cwricwlwm i'r plant hyn. Felly, rydym am sicrhau y gall cynnydd y dysgwyr hyn mewn perthynas â'u cwricwlwm unigol gael ei asesu'n briodol ac rydym yn bwriadu gwneud yr awdurdod lleol yn gyfrifol am wneud, gweithredu ac adolygu trefniadau asesu mewn perthynas ag addysg mewn lleoliad heblaw mewn ysgol a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion.

4.28 Dylai trefniadau asesu gael eu gwneud, eu hadolygu a'u diwygio ar yr un pryd â'r trefniadau ar gyfer y cwricwlwm. Mae'n rhaid i drefniadau gael eu gwneud ar ôl rhoi sylw dyledus i Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllawiau Asesu.

Dysgwyr sy'n cael addysg mewn mwy nag un lleoliad

4.29 Mae Deddf 2021 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â darparu ar gyfer dysgwyr sy'n cael addysg mewn mwy nag un lleoliad. Bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi trefniadau asesu ar waith i'r dysgwyr hyn, er mwyn cefnogi eu cwricwlwm perthnasol.

4.30 Mae'r gwaith datblygu mewn perthynas â'r cwricwlwm i'r dysgwyr hyn yn mynd rhagddo a byddwn yn cynnal ymgynghoriad arno yn ystod yr hydref. Caiff manylion darpariaethau ar gyfer trefniadau asesu i'r dysgwyr hyn eu cynnwys yn yr ymgynghoriad yn yr hydref fel y gellir ystyried y cwricwlwm a'r trefniadau asesu gyda'i gilydd.

Darpariaethau cyffredinol: natur y trefniadau asesu

4.31 Mae'r paragraffau blaenorol yn nodi sut y bydd y darpariaethau deddfwriaethol mewn perthynas â gwneud, gweithredu ac adolygu trefniadau asesu yn gymwys i wahanol leoliadau. Mae'r adran nesaf yn disgrifio nodweddion y trefniadau asesu hyn y byddwn yn eu rhagnodi er mwyn sicrhau y caiff cynnydd dysgwyr ei gefnogi mewn ffordd gyson.

Dim llunio barn ar adeg nac oedran penodol

4.32 Gyda'r penderfyniad i gael gwared ar lefelau a chyfnodau, mae'r canllawiau asesu yn nodi'n glir na ddylai ysgolion ymgymryd â gweithgareddau asesu penodol ym mhob cam cynnydd i lunio barn am gynnydd dysgwr ar adeg neu oedran penodol.

4.33 Mae'r dull asesu yn y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar ymarferwyr yn asesu'n barhaus i ba raddau y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd er mwyn llywio addysgu a dysgu yn y dyfodol. Mae hyn yn dra gwahanol i'r dull gweithredu blaenorol lle roedd dysgwyr yn cael eu hasesu yn seiliedig ar lefelau, ac ar adegau penodol. Gyda chynnydd ar hyd y continwm, dylai ysgolion ac ymarferwyr ddefnyddio disgrifiadau dysgu i ddatblygu amrywiaeth eang o ddulliau asesu sy'n helpu i benderfynu a yw cynnydd yn cael ei wneud a sut: bydd dulliau asesu penodol yn dibynnu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau sy'n cael eu datblygu ac anghenion dysgwyr. Ni ddylai ysgolion geisio rhannu disgrifiadau dysgu yn gyfres o feini prawf asesu sefydlog a ddefnyddir fel rhestr dicio gan nad yw hyn yn eu helpu i ddeall a yw dysgwyr yn gwneud cynnydd ystyrlon.

4.34 Mewn ymgais benodol i symud oddi wrth y dull asesu o dan y cwricwlwm presennol, ni fydd y rheoliadau ynglŷn ag asesu yn ei gwneud yn ofynnol i lunio barn ar unrhyw adeg benodol nac mewn perthynas ag unrhyw lefelau. Er mwyn tanlinellu pwysigrwydd hyn, byddwn yn diweddarau'r canllawiau ar asesu cynnydd dysgwyr i nodi'n glir na ddylai ysgolion na lleoliadau ddefnyddio disgrifiadau dysgu i ymgymryd â gweithgareddau asesu penodol ym mhob cam cynnydd nac i lunio barn am gynnydd dysgwr ar adeg nac oedran penodol. Yn hytrach, bydd y broses asesu yn un barhaus ac yn rhan o ymarfer o ddydd i ddydd.

4.35 Pan fydd dysgwr yn dechrau mewn ysgol ar unrhyw adeg, dylai'r ysgol sicrhau ei bod yn deall lle mae arni o ran ei ddysgu a'r cynnydd y mae wedi'i wneud hyd yma. Dylid defnyddio'r ddealltwriaeth hon i nodi man cychwyn y dysgwr a sut orau y gall yr ysgol symud ei ddysgu ymlaen.

4.36 Bydd myfyrio ar gynnydd dysgwr dros amser yn galluogi ymarferwyr i roi adborth a helpu i gynllunio ei ddysgu yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw ymyriadau, unrhyw gymorth ychwanegol neu her a all fod yn angenrheidiol. Dylai hyn gynnwys y camau nesaf uniongyrchol a'r amcanion yn y tymor hwy y dylai'r dysgwr weithio tuag atynt er mwyn ei helpu i barhau i symud yn ei flaen o ran ei ddysgu. Gellir defnyddio hyn fel sail dros gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr.

Asesu wedi'i ymgorffori mewn ymarfer o ddydd i ddydd

4.37 Bwriedir i'r trefniadau asesu helpu pob dysgwr i wneud cynnydd drwy ei gwneud yn haws i ymarferydd ddeall anghenion dysgwr unigol fel y gall ddefnyddio'r ddealltwriaeth honno i helpu i gynllunio addysgu a dysgu a'r camau nesaf yng nghynnydd y dysgwr. Bwriedir i'r trefniadau asesu greu darlun cyfannol o'r dysgwr ac, er mwyn gwneud hynny, bydd angen i weithgarwch asesu fod yn broses barhaus sydd wedi'i hymgorffori mewn ymarfer o ddydd i ddydd, mewn ffordd na ellir gwahaniaethu rhwng asesu ac addysgu a dysgu.

4.38 Fel y cyfryw, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r broses asesu fod yn un barhaus, lle mae dysgwyr yn cael eu hasesu drwy gydol y flwyddyn. Bydd ein canllawiau yn cynghori y dylid cyflawni hyn drwy ymgorffori proses asesu mewn ymarfer o ddydd i ddydd mewn ffordd fel na ellir gweld y gwahaniaeth rhwng asesu ac addysgu a dysgu, ond sy'n canolbwyntio ar gynnydd ac anghenion cynnydd dysgwyr unigol. Drwy broses asesu barhaus gall ymarferwyr ddeall a chefnogi cynnydd dysgwr mewn perthynas â'r cwricwlwm a fabwysiadwyd ac yna gellir defnyddio'r wybodaeth hon i gyflawni dyletswyddau mewn perthynas ag adolygu a diwygio'r cwricwlwm a threfniadau asesu cysylltiedig.

Trefniadau sy'n briodol i bob dysgwr

4.39 Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn gwricwlwm cynhwysol sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr ac mae'n gofyn am ddylunio cwricwla sy'n addas ar gyfer pob dysgwr o bob oedran, gallu a dawn. Felly, un o egwyddorion sylfaenol y trefniadau asesu yw y dylent gefnogi cynnydd pob dysgwr yn unol â'r cynnydd fel y'i mynegwyd yn y Cod Cynnydd. Mae'n hanfodol bod dysgwyr, unigol, eu hanghenion, eu cryfderau a'u meysydd i'w gwella yn cael eu hystyried wrth ddylunio trefniadau asesu ac ymgorffori ymarfer asesu mewn addysgu a dysgu.

4.40 Felly, er mwyn sicrhau tegwch i bob dysgwr a bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wneud cynnydd drwy'r cwricwlwm, mae'n rhaid i'r person perthnasol, wrth wneud, gweithredu ac adolygu ei drefniadau asesu, sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer anghenion pob dysgwr, gan gynnwys anghenion amrywiol dysgwyr unigol.

4.41 Mae'r gofyniad bod yn rhaid i'r trefniadau asesu fod yn addas ar gyfer pob dysgwr o oedrannau gwahanol â galluoedd a doniau gwahanol yn golygu bod yn rhaid i'r person perthnasol sicrhau, wrth ystyried trefniadau asesu, fod Cynlluniau Datblygu Unigol a'u gofynion unigol o ran y cwricwlwm yn cael eu hystyried.

4.42 Pan gaiff gofynion gweithredu'r cwricwlwm i ddysgwr eu haddasu yn rhinwedd pwerau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ADY), bydd angen i'r trefniadau asesu sy'n cael eu gwneud gefnogi cynnydd y dysgwr yn unol â'i gwricwlwm addasedig, ac fel y'i nodwyd yn ei CDU.

Asesu ar adeg dechrau addysg

4.43 Ar hyn o bryd, mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn darparu ar gyfer cynnal asesiad sylfaenol o fewn chwe wythnos i ddisgybl ddechrau addysg ar yr oedran gorfodol (y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed). Gan fod y Cwricwlwm i Gymru yn rhychwantu continwmm 3-16, a chan gydnabod bod plant yn dechrau eu haddysg yn y blynyddoedd cynnar, boed hynny mewn lleoliad a gynhelir ai peidio, ar adegau gwahanol ar hyd y continwmm hwnnw, rydym yn cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i berson perthnasol fod yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir "asesiad ar adeg dechrau" i bob dysgwr neu blentyn pan gaiff ei gofrestru mewn ysgol neu leoliad a'i fod yn derbyn y lle a gynnigir iddo.

4.44 Bwriad yr asesiad ar adeg dechrau yn yr ysgol yw dod i ddeall anghenion dysgwr, cymryd y cam cyntaf tuag at ddod i ddeall dysgwr wrth ystyried ei gryfderau, ei feysydd i'w gwella a lle mae angen mwy o ffocws neu gymorth, gyda'r bwriad o ddefnyddio'r wybodaeth hon i deilwra addysg a dysgu er mwyn sicrhau a chefnogi cynnydd i'r dysgwr hwnnw.

4.45 O ystyried y pwys a roddir ar y continwmm dysgu ac anghenion cyfannol dysgwyr yn y Cwricwlwm i Gymru, dylid cynnal yr asesiad hwn ar adeg dechrau addysg oedran ysgol gorfodol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ond dylid hefyd sicrhau y gall ymarferydd asesu lle mae plentyn arni mewn perthynas â'r continwmm 3-16 ar unrhyw bwynt wrth ddechrau mewn ysgol neu leoliad. Wrth hyn, rydym yn golygu'r adeg y bydd plentyn neu ddysgwr yn cael ei gofrestru gyntaf ac yn dechrau ei addysg mewn lleoliad neu ysgol newydd, p'un ai ar ddechrau'r flwyddyn neu ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn. Felly, bwriedir i'r asesiadau dechreuol ddigwydd pan fydd dysgwr yn cael:

- a) ei gofrestru gyntaf ac yn dechrau mewn lleoliad a gyllidir ond nas cynhelir am y tro cyntaf neu o leoliad arall;
- b) ei gofrestru gyntaf ac yn dechrau mewn ysgol feithrin a gynhelir. Gallai hyn naill ai fod yn unol â'r gofynion dechreuol presennol ar gyfer derbyniadau ysgol, h.y. y tymor ar ôl pen-blwydd plentyn yn 3 oed neu pe bai'n sicrhau lle mewn meithrinfa a gynhelir ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn academiaidd naill ai o leoliad neu o ysgol arall neu'r cartref, h.y. yn hollol newydd i addysg;
- c) ei gofrestru gyntaf mewn ysgol yn ystod y flwyddyn dderbyn;
- d) ei gofrestru gyntaf mewn ysgol ar ôl cyrraedd oedran ysgol gorfodol;
- e) ei gofrestru gyntaf mewn ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol o ysgol arall;
- f) ei gofrestru gyntaf mewn lleoliad heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys uned cyfeirio disgyblion o ysgol;
- g) ei gofrestru gyntaf mewn ysgol wrth ddychwelyd i ysgol o leoliad heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys uned cyfeirio disgyblion.

4.46 Mewn perthynas â dysgwyr sy'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, rydym yn credu y dylai trefniadau a roddir ar waith o dan ofynion cynlluniau trosglwyddo ddarparu digon o wybodaeth mewn perthynas â phob dysgwr i asesu anghenion dysgwr unigol a'r camau dysgu nesaf wrth iddo ddechrau yn yr ysgol uwchradd.

4.47 Rydym yn credu ei bod yn briodol gwneud yr ysgol neu'r lleoliad yn gyfrifol am benderfynu ar natur a manylion yr asesiad dechreuol yn unol â'r cwricwlwm a fabwysiadwyd ganddi/ganddo, boed hynny drwy ddefnyddio dull arsylwi/ffurfiannol neu grynodol. Fodd bynnag, dylai pob asesiad dechreuol asesu cynnydd y dysgwr o ran:

- sgiliau a galluoedd Rhifedd a Llythrennedd;
- galluoedd llesiant, i gynnwys datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol.

Adran 57 – Hybu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd

5 Mae cynnydd yn agwedd sylfaenol sy'n sail i'r broses o ddylunio a chynllunio cwricwlwm ysgol ac felly ei threfniadau asesu. O dan y Cwricwlwm i Gymru mae ysgolion unigol yn gyfrifol am ddylunio eu cwricwlwm lleol eu hunain, gyda disgresiwn ar lefel ysgol ynglŷn â thopigau a chynnwys dysgu, felly mae angen inni sicrhau bod tegwch i ddysgwyr ledled Cymru yn yr addysg y maent yn ei chael a chysondeb i ddysgwyr o ran eu cynnydd.

5.1 Er mwyn sicrhau'r tegwch hwn, rydym o'r farn ei bod yn bwysig i ysgolion a lleoliadau rannu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, gan gynnwys y disgwyliadau ynglŷn â sut beth fydd cynnydd a pha mor gyflym y gall dysgwyr wneud cynnydd, ac y dylai hyn gael ei ystyried pan fydd ysgol yn dylunio ac yn cyflwyno ei chwricwlwm unigol.

5.2 Rydym o'r farn y dylai'r ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd gael ei datblygu drwy ddysgu proffesiynol ac fel proses barhaus y mae deialog broffesiynol yn agwedd hanfodol arni. Rydym yn cydnabod y gall deialog broffesiynol roi cyfleoedd i arweinwyr ac ymarferwyr rannu a myfyrio ar effaith cwricwlwm eu hysgol, eu profiadau o'r broses ddysgu ac o gefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd.

5.3 Mae adran 57 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo person perthnasol (fel y'i diffiniwyd gan adran 56 o Ddeddf 2021) i gymryd camau penodol gyda golwg ar hybu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd yng nghyd-destun y cwricwlwm a fabwysiadwyd gan ei ysgol.

5.4 Felly, rydym yn bwriadu rhoi Cyfarwyddyd o dan adran 57 o Ddeddf 2021 a fydd yn cyfarwyddo'r person perthnasol mewn ysgol/leoliad i wneud trefniadau a chymryd yr holl gamau angenrheidiol i roi'r trefniadau hynny ar waith **o fewn** ysgol/leoliad er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. O ran ystyr trefniadau rydym yn golygu'r gwaith paratoi gweinyddol sydd ei angen i'w gwneud yn bosibl i'r deialog broffesiynol ddigwydd. Gallai hyn gynnwys pethau megis polisïau, prosesau, systemau, cynlluniau ac amserlenni cyfarfodydd. Mae'n rhaid i'r trefniadau hyn nodi a chefnogi'r staff sy'n gyfrifol am addysgu a dysgu mewn ysgol a lleoliad i allu cymryd rhan yn y ddeialog, gan gydnabod eu rôl sylfaenol o ran cefnogi cynnydd dysgwyr.

Bydd y Cyfarwyddyd ar gyfer:

- pennaeth a chorff llywodraethu ysgolion a gynhelir;
- darparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir,
- yr athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb a/neu bwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion
- yr Awdurdod Lleol yn achos darparwyr eraill addysg heblaw yn yr ysgol

5.5. O ystyried ehangder y cwricwlwm a chan gydnabod bod yn rhaid rhoi cyfle i ymarferwyr drafod pwnc ar fwy nag un achlysur er mwyn iddynt ddatblygu dealltwriaeth wirioneddol o gynnydd, byddwn yn ceisio cyfarwyddo bod y trefniadau ar gyfer datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn cefnogi deialog barhaus reolaidd ond y byddai hyn yn digwydd o leiaf unwaith y tymor. At hynny, dylid cwmpasu'r cwricwlwm cyfan o fewn yr ysgol/leoliad, o fewn cyfnod nad yw'n fwy na thair blwyddyn ysgol. Yn ein barn ni, y cyfnod o dair blynedd fydd yr uchafswm cyfnod adolygu y mae'n rhaid trafod y cwricwlwm cyfan ynddo.

5.6. Yn unol â'r cysyniad o sybsidiaredd a chan gydnabod mai'r personau perthnasol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y gweithrediad a'r strwythur manwl i gefnogi'r ddeialog broffesiynol hon, ni fyddwn yn llunio unrhyw ofynion manwl ynglŷn â'r broses ond byddwn

yn nodi arferion gorau ac ystyriaethau allweddol mewn canllawiau i'r rhai sy'n gyfrifol wrth bennu'r trefniadau hyn.

Dealltwriaeth gyffredin o gynnydd rhwng ysgolion

5.7 Er mwyn sicrhau tegwch i ddysgwyr drwy'r cwricwlwm cyfan, bydd angen dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, a ategir gan ddeialog broffesiynol, rhwng ysgolion a lleoliadau hefyd. Felly, rydym yn bwriadu cyfarwyddo bod y personau perthnasol (fel y'u diffinnir gan adran 56 o Ddeddf 2021) yn rhoi trefniadau ar waith **rhwng** ysgolion a lleoliadau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.

5.8 Er mwyn goresgyn y risg y gall rhai grwpiau o leoliadau mewn rhanbarth neu ardal ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd nad yw'n cyd-fynd â'r disgwyliadau cenedlaethol ynglŷn â chynnydd dysgwyr drwy gydol y continwrm dysgu, rydym am i'r ddeialog broffesiynol hon ymestyn y tu hwnt i "clystyrau o ysgolion", sef ysgol uwchradd a'i hysgolion bwydo, a bod trafodaethau rhwng ysgolion a lleoliadau yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y tymor.

5.9 Felly, rydym yn bwriadu cyfarwyddo penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir bod yn rhaid iddynt, wrth bennu'r trefniadau ar gyfer dealltwriaeth gyffredin o gynnydd rhwng lleoliadau, sicrhau bod y prosesau hyn yn galluogi'r canlynol fel gofyniad sylfaenol:

- a. Mae'n rhaid i ysgolion uwchradd berthyn i o leiaf un grŵp arall sy'n cynnwys ysgol uwchradd arall.
- b. Mae'n rhaid i ysgolion cynradd gydweithio â lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir.
- c. Mae'n rhaid i ysgolion cynradd ac uwchradd gydweithio ag unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol o fewn eu hawdurdod lleol neu'r rhai y mae ganddynt gydberthynas â nhw am fod dysgwyr yn symud rhyngddynt neu'n cael eu cofrestru'n ddeuol â nhw.

Eithriadau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd

Lleoliadau a gyllidir ond nas cynhelir

5.10 Rydym yn cydnabod y byddai gosod gofyniad ar leoliadau a gyllidir ond nas cynhelir drwy'r Cyfarwyddyd i ddatblygu, ymgorffori a chynnal prosesau **rhwng** lleoliadau a gyllidir ond nas cynhelir a chydag ysgolion yn gosod gofynion cyfreithiol beichus arnynt y gallant gael anhawster i'w bodloni. Rydym hefyd yn cydnabod bod rhai lleoliadau yn bwydo i mewn i sawl ysgol gynradd ac na fyddai'n ymarferol ei gwneud yn ofynnol i leoliadau sefydlu prosesau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd â phob un o'u hysgolion cynradd cysylltiedig. Rydym hefyd yn cydnabod y goblygiadau o ran costau pe bai'n ofynnol cynnal proses o'r fath. Felly, byddwn yn ystyried gosod y gofyniad i ymgysylltu ar bennaeth a chorff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir i geisio sicrhau bod y cydberthnasau hyn yn cael eu datblygu a'u bod yn achub ar gyfleoedd i gydweithio â lleoliadau a gyllidir ond nas cynhelir. Rydym yn cydnabod na fyddai'n briodol gosod yr un gofynion ar ddarparwr lleoliad a gyllidir ond nas cynhelir. Yn lle hynny, byddwn yn annog, drwy ganllawiau, fod prosesau yn cael eu sefydlu i gefnogi deialog broffesiynol rhwng lleoliadau a gyllidir ond nas cynhelir ond yn enwedig ag ysgolion y maent yn bwydo'r mwyafrif o'u plant iddynt, er mwyn cefnogi cynnydd plant a dysgwyr. Felly, i grynhoi, ni fydd yn ofynnol i leoliadau a gyllidir ond nas cynhelir gydweithio â lleoliadau eraill a/neu ysgolion

drwy Gyfarwyddyd. Fodd bynnag, byddwn yn cyhoeddi canllawiau ac yn eu hannog i wneud hynny lle y bo modd, yn enwedig os bydd ysgol/lleoliad yn cysylltu â nhw.

5.11 Byddwn hefyd yn cefnogi lleoliadau a gyllidir ond nas cynhelir i wneud trefniadau a chymryd y camau angenrheidiol i roi trefniadau ar waith i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn eu lleoliad. Pan fydd lleoliad yn dewis dylunio a mabwysiadu cwricwlwm addas heblaw'r un a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, yna byddwn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hyn.

Unedau cyfeirio disgyblion

5.12 O ystyried bod Deddf 2021 yn gosod gofynion gwahanol ar uned cyfeirio disgyblion mewn perthynas â datblygu cwricwlwm ar gyfer uned a chan gydnabod rôl hollbwysig y lleoliadau hyn i roi mynediad at ddysgu i rai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed mewn amrywiaeth o leoliadau, a'r hyblygrwydd y mae'n rhaid i'r lleoliadau hyn ei gynnig i'w disgyblion, rydym yn teimlo ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol i unedau cyfeirio disgyblion ddod ynghyd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Er mwyn sicrhau bod dysgwyr mewn uned yn cael cyfle i wneud cynnydd mewn ffordd sy'n hwyluso'r broses o drosglwyddo'n ôl i ysgol brif ffrwd, rydym yn teimlo ei bod hefyd yn briodol i unedau cyfeirio disgyblion ymgysylltu ag unrhyw ysgolion cynradd/uwchradd perthnasol y mae eu disgyblion yn trosglwyddo rhyngddynt.

5.13 Felly, rydym yn bwriadu cyfarwyddo'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb a phwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion i roi trefniadau ar waith a chymryd yr holl gamau angenrheidiol i'w rhoi ar waith i alluogi ymarferwyr o **bob** uned cyfeirio disgyblion i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol i gefnogi dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, a hefyd ymgysylltu ag unrhyw ysgolion cynradd/uwchradd perthnasol at y diben hwn.

Darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol eraill ac eithrio unedau cyfeirio disgyblion

5.14 Er mwyn cydnabod y mathau gwahanol iawn o ddarparwyr addysg heblaw yn yr ysgol ac eithrio unedau cyfeirio disgyblion a chydabod bod gofynion ynglŷn â'r cwricwlwm o dan adrannau 53-55 o Ddeddf 2021 yn canolbwyntio ar y plentyn unigol, rydym o'r farn ei bod yn afresymol, ac yn anfuddiol ar y cyfan, ei gwneud yn ofynnol i broses gael ei hymgorffori i feithrin dealltwriaeth gyffredin o gynnydd rhwng y lleoliadau hyn. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio annog awdurdodau lleol, drwy ganllawiau, i sefydlu prosesau sy'n hwyluso ymgysylltu rhwng lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol o'r fath a lleoliadau cynradd, uwchradd neu unedau cyfeirio disgyblion y mae ganddynt gydberthynas â nhw am fod disgyblion yn symud rhyngddynt, ac yn hwyluso eu cynnwys mewn prosesau o'r fath.

Canllawiau

5.15 Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau i gefnogi'r broses hon o dan y ddyletswydd gyffredinol a amlinellwyd yn adran 71 o Ddeddf 2021. Bydd yn rhaid i benaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a, lle y bo'n briodol, awdurdodau lleol roi sylw i'w cynnwys.

5.16 Bydd y canllawiau yn rhoi rhagor o gyd-destun i'r broses o ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn a rhwng ysgolion/lleoliadau. Byddant yn pwysleisio pwysigrwydd deialog broffesiynol i arweinwyr ac ymarferwyr er mwyn rhannu a myfyrio ar eu dealltwriaeth o gynnydd er mwyn ystyried effaith cwricwlwm eu hysgol, eu profiadau o'r broses ddysgu ac o gefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd.

5.17 Bydd y canllawiau yn egluro'r gydberthynas rhwng y broses hon a'r dull o sicrhau gwelliant parhaus yn fwy cyffredinol mewn ysgol. Byddwn yn cynghori ysgolion i ystyried y dirnadaethau a'r ddealltwriaeth a geir o ganlyniad i'r ddeialog broffesiynol hon er mwyn llywio eu proses hunanwerthuso yn ogystal ag adolygu cwricwlwm eu hysgol a'u trefniadau asesu. Bydd y canllawiau hefyd yn rhoi cyngor ar y cyfraniadau mwyaf defnyddiol a'r dystiolaeth i gefnogi trafodaethau rhwng ymarferwyr o fewn a rhwng ysgolion a byddant hefyd yn egluro'r rôl bwysig y gallai awdurdodau lleol a'r consortia ei chwarae i gefnogi'r broses hon, gan sicrhau bod pob ymarferydd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol ystyrlon.

5.18 Gan gydnabod bod hon yn broses newydd sbon ac y bydd yn cymryd amser i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o gynnydd, byddwn yn ceisio cefnogi ymarfer proffesiynol drwy ganllawiau a fydd yn:

- Ymhelaethu ymhellach ar arferion da o ran cyd-destun ac amllder deialog broffesiynol i ddatblygu dealltwriaeth o gynnydd (gan gynnwys sicrhau dulliau cymesur ar gyfer yr ysgolion lleiaf)
- Esbonio'r gydberthynas rhwng deialog broffesiynol i ddatblygu dealltwriaeth o gynnydd, y cod cynnydd a dylunio ac adolygu'r cwricwlwm, gan gynnwys defnyddio'r hyn sy'n deillio o ddeialog broffesiynol.
- Nodi'r mathau o bethau y dylid eu hystyried yn ystod y ddeialog broffesiynol, er enghraifft myfyrio ar y ffordd y mae eu hysgol wedi dylunio ei chwricwlwm a'i threfniadau asesu i adlewyrchu egwyddorion cynnydd, a arweinir gan y disgrifiadau dysgu ac effaith hyn ar addysgu.
- Annog ysgolion i ymgysylltu ag ysgolion a lleoliadau y tu allan i'w clystyrau arferol (er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu dealltwriaeth ymarferwyr o gynnydd ar hyd y continwwm dysgu 3-16 a phennu disgwyliadau cydlynol a chyson i ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu mewn mwy nag un lleoliad neu sy'n trosglwyddo rhwng lleoliadau gwahanol.
- Rhoi cyngor ar sicrhau bod staff perthnasol yn gallu cymryd rhan yn y broses er mwyn datblygu dealltwriaeth o gynnydd.
- Cynghori ar y ffordd y gall ysgolion/leoliadau sicrhau bod y ddealltwriaeth sy'n deillio o drafodaethau yn cael ei hadlewyrchu yn y gwaith o ddatblygu a mireinio ymarfer o ddydd i ddydd.
- Cynghori ar y ffordd y gall ysgolion/leoliadau sicrhau bod canlyniadau'r trafodaethau yn cael eu hadlewyrchu yn yr ystyriaethau cyffredinol o gynnydd dysgwr ac yn dylanwadu ar yr adborth i rieni yn ystod y broses adrodd.

Deddfwriaeth ar drefniadau trosglwyddo ac adrodd i rieni i gyd-fynd â threfniadau asesu newydd ac ethos y Cwricwlwm i Gymru

6 Mae symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn garreg filltir allweddol yn ystod taith dysgwr ac mae'n bwysig bod pob dysgwr yn cael digon o gymorth i drosglwyddo.

6.1 Mae deddfwriaeth ynglŷn â throsglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ar hyn o bryd yn *OS Gofyniad am lunio Cynlluniau Pontio ac arweiniad 2006* a [Rheoliadau Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd \(Cymru\) 2006](#). Mae'r rheoliadau hyn yn nodi bod yn rhaid i gorff llywodraethu ysgol uwchradd a gynhelir a chyrrff llywodraethu ysgolion cynradd bwydo lunio cynllun ar y cyd i hwyluso'r broses o drosglwyddo rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd i ddisgyblion a nodi'r gofynion ar gyfer paratoi a chynnal cynlluniau trosglwyddo, gan gynnwys manylion ynglŷn â'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei gwmpasu, pryd y dylid eu hadolygu/diwygio a gofynion cyffredinol ynglŷn â chyhoeddi ac ati.

6.2 Mae'r gofyniad i lunio cynllun wedi'i osod ar gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd cymunedol, gwirfoddol a sefydledig a'u hysgolion cynradd bwydo cyfatebol. Mae'r rheoliadau yn pennu mai dim ond pan fo perthynas sefydledig a pharhaus rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd benodol sy'n seiliedig ar y ffaith bod y mwyafrif o garfan Blwyddyn 6 o'r ysgol gynradd yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd benodol honno y bydd yn rhaid llunio cynllun. Mae hyn yn nodi'r gofyniad cyfreithiol sylfaenol presennol ond er mwyn cydnabod y bydd plant ysgol gynradd yn trosglwyddo i nifer o ysgolion uwchradd y tu hwnt i'r gofyniad sylfaenol hwn ac nad yw'r ysgol yn ysgol fwydo ei hun o bosibl, mae'r canllawiau yn annog trefniadau gwirfoddol i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r broses drosglwyddo.

6.3 Ceir eithriad hefyd mewn perthynas ag ysgolion gwledig bach lle mae cyfanswm nifer y disgyblion cofrestredig ar gyfer cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol dau o dan 50 neu o dan 32 ar gyfer cyfnod allweddol dau yn unig. Anogir yr ysgolion hyn, er nad oes llawer ohonynt, i ymrwymo i drefniadau cynllunio gwirfoddol i gefnogi'r broses drosglwyddo.

6.4 Mae gan bob ysgol gynlluniau trosglwyddo ar waith eisoes ond bydd ffocws y rhain ar y broses drosglwyddo a pharhad cynllunio'r cwricwlwm, addysgu a dysgu sy'n seiliedig ar y cwricwlwm presennol.

6.5 Er mwyn sicrhau parhad dysgu a chynnydd priodol sy'n parhau ac sy'n cael ei gefnogi i ddysgwyr rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, rydym yn credu bod cynllunio ar gyfer proses drosglwyddo effeithiol yn hollbwysig yn y cwricwlwm newydd, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd y continwwm dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau presennol yn darparu ar gyfer yr hyn y mae angen ei ystyried mewn perthynas â dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, gan gynnwys llesiant, na'r parhad dysgu sy'n ofynnol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno Fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

6.6 Er mwyn cydnabod bod iechyd a llesiant da yn hanfodol i alluogi disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus, rydym am sicrhau hefyd fod llesiant dysgwyr a'u hanghenion unigol yn rhan annatod o'r broses drosglwyddo yn y dyfodol, yn enwedig yn sgil y tarfu ar addysg cynifer o ddysgwyr a'r effeithiau ar lesiant meddyliol ac emosiynol o ganlyniad i bandemig COVID-19.

6.7 Felly, rydym yn bwriadu gosod dyletswydd gyfreithiol ar gorff llywodraethu ysgol uwchradd a chorff llywodraethu eu hysgolion cynradd bwydo i roi cynlluniau trosglwyddo newydd ar waith sy'n cael eu datblygu ar gyfer dysgwyr sy'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd o dan y Cwricwlwm i Gymru. Dylai hyn ystyried parhad dysgu, sut y caiff hynny ei gefnogi drwy addysgu a dysgu wrth iddo gael ei ddatblygu, a dylai cynlluniau ystyried sut y bydd ysgolion yn ystyried ac yn cefnogi cynnydd unigol dysgwr a'i iechyd meddwl a'i lesiant emosiynol.

6.8 Fel yn achos y trefniadau presennol, er y bydd gan yr ysgol uwchradd un cynllun trosglwyddo, rydym yn disgwyl i'r cynllun hwnnw gynnwys darpariaeth ar gyfer un neu ragor o ysgolion cynradd bwydo lle mae hynny'n wahanol i'r ddarpariaeth ar gyfer yr ysgolion cynradd bwydo eraill, h.y. mae'n rhaid i'r cynllun ystyried y darpariaethau gwahanol ymhlith ei hysgolion cynradd bwydo a darparu ar gyfer hynny.

6.9 Yn ein barn ni, nid oes angen newid y gofynion ynghylch i bwy mae cynlluniau trosglwyddo yn gymwys. Felly, rydym yn bwriadu y bydd dyletswyddau i lunio cynlluniau trosglwyddo mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru yn parhau i gael eu gosod ar ysgolion uwchradd cymunedol, gwirfoddol a sefydledig a'u hysgolion cynradd bwydo fel y'u diffinnir mewn deddfwriaeth gyfredol.

6.10 O ystyried y caiff y Cwricwlwm i Gymru ei roi ar waith o fis Medi 2022, gyda'r garfan gyntaf o ddisgyblion blwyddyn 6 yn trosglwyddo i flwyddyn 7 o dan y cwricwlwm newydd ym mis Medi 2023, rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn deddfu ar gyfer y cynlluniau newydd hyn a'u bod yn cael eu llunio cyn y flwyddyn academaidd 2022/23. Wrth wneud hynny, y bwriad yw y gall y broses o ddylunio'r cwricwlwm a'i roi ar waith gefnogi parhad dysgu er mwyn i'r garfan gyntaf hon o ddisgyblion blwyddyn 6, a charfannau wedi hynny, drosglwyddo'n effeithiol i flwyddyn 7.

Materion y mae'n rhaid ymdrin â nhw mewn cynlluniau trosglwyddo

6.11 Rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i'r un wybodaeth sylfaenol gael ei nodi yn y cynllun trosglwyddo mewn perthynas â'i ddiben, i bwy y mae'n gymwys, y garfan gyntaf o ddisgyblion y bydd yn gymwys iddi a'r dyddiad cyhoeddi. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu newid y materion y mae'n rhaid ymdrin â nhw mewn cynlluniau trosglwyddo, e.e. cynnwys sylfaenol y cynlluniau.

Hoffem ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu gynnwys disgrifiadau o'r canlynol yn eu cynlluniau:

- Sut y byddant yn sicrhau parhad dysgu i ddisgyblion blwyddyn 6 sy'n symud i flwyddyn 7, drwy'r gwaith o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm,
- Sut y caiff cynnydd dysgwr unigol ei gefnogi wrth iddo drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd,
- Sut y caiff anghenion ac iechyd meddwl a llesiant emosiynol pob dysgwr unigol eu hystyried a'u cefnogi wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd,
- Dylai'r wybodaeth am bob dysgwr gael ei throsglwyddo o'r ysgol fwydo i'r ysgol uwchradd er mwyn cefnogi ei gynnydd a'i iechyd meddwl a'i lesiant emosiynol,
- Y trefniadau ar gyfer adolygu a monitro cynlluniau at ddiben
 - o asesu effaith cynllun ar y dysgwyr hynny sydd wedi trosglwyddo mewn perthynas â sicrhau parhad dysgu a chynnydd priodol;
 - o sut mae wedi hwyluso cymorth priodol i ddysgwyr, gan ystyried eu hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol unigol yn ystod y broses drosglwyddo;
 - o ystyried sut y gellid rheoli'r broses drosglwyddo yn well.
- Sut y bydd ysgolion yn cydgysylltu ac yn rheoli'r broses drosglwyddo o'r ysgolion bwydo i'r ysgolion uwchradd i ddysgwyr.

6.12 Rydym yn cydnabod bod goblygiadau i'r ffeil a'r System Trosglwyddo Ffeiliau Gyffredin o ganlyniad i'r newidiadau hyn a byddwn yn edrych ar hyn ymhellach ar y cyd â chydweithwyr polisi er mwyn ystyried yr effaith weithredol ac a oes angen newidiadau canlyniadol pellach i is-ddeddfwriaeth Nodir y gofynion ar gyfer trosglwyddo data disgybl o un lleoliad i un arall (System Trosglwyddo Ffeiliau Gyffredin) yn Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 Rydym yn rhagweld y bydd angen diwygio'r rheoliadau hynny a byddwn yn cynnal ymgynghoriad arall arnynt.

Adolygu'r cynllun

6.13 Wrth i gwricwla ysgolion newid ac wrth i natur y cydberthnasau rhwng ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd newid, dylid adolygu cynlluniau er mwyn sicrhau bod y trefniadau trosglwyddo yn unol â'r cwricwla perthnasol o hyd, yn effeithiol ac yn addas at y diben ac yn parhau i gefnogi cynnydd effeithiol ar hyd y continwwm dysgu.

6.14 Rydym yn bwriadu cadw'r un gofynion mewn perthynas ag adolygu cynlluniau trosglwyddo, sef o leiaf bob tair blynedd, pan ddaw ysgol fwydo newydd yn rhan o'r cynllun neu pan fydd y cyrff llywodraethu yn teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny. Fodd bynnag, rydym hefyd am i gynllun trosglwyddo gael ei adolygu os bydd cwricwlwm neu drefniadau asesu ysgol, y mae'r cynllun yn berthnasol iddi, yn cael eu diwygio fel rhan o'r broses o adolygu'r cwricwlwm a threfniadau asesu. Bydd yr adolygiad o'r cynllun yn sicrhau bod y cynllun yn parhau i ddarparu ar gyfer cynnydd a pharhad dysgu effeithiol.

Rhoi adroddiad i rieni/gofalwyr — Fe'i rheoleiddir ar hyn o bryd o dan Reoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011

7 Mae ymgysylltu â chymuned ehangach yr ysgol, yn enwedig rhieni a gofalwyr, yn un o egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru. Mae rhieni a'r rhai â chyfrifoldeb rhiant yn gyfranwyr allweddol i ysgolion wrth iddynt ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm ac ystyrir eu bod yn hollbwysig i roi cwricwlwm ar waith yn llwyddiannus sy'n ei gwneud yn haws i ddysgwyr gyflawni'r pedwar diben. Maent nid yn unig yn chwarae rôl wrth helpu i ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer cwricwlwm ysgol, ond maent hefyd yn chwarae rôl sylfaenol yn y broses o wireddu cwricwla, drwy'r cymorth y maent yn ei gynnig i'w plant.

7.1 Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cydnabod y rôl allweddol y mae rhiant/gofalwr yn ei chwarae i gefnogi cynnydd dysgwyr. Mae cyfathrebu'n effeithiol â rhieni/gofalwyr drwy'r amser yn ffordd bwysig o feithrin cydberthnasau cadarnhaol. Gall hyn helpu cynnydd dysgwyr drwy helpu rhieni/gofalwyr i ddatblygu dealltwriaeth glir o gynnydd eu plentyn yn erbyn cwricwlwm yr ysgol, a fydd wedi'i ddylunio i ddarparu ar gyfer cynnydd priodol fel y'i nodwyd yn genedlaethol yn y Cod Cynnydd, eu hanghenion o ran cynnydd yn y dyfodol a'r camau nesaf, a sut y gallant gefnogi dysgu a chynnydd o fewn amgylchedd yr ysgol a thu hwnt. Cydnabyddir bod angen i gyfathrebu o'r fath fod yn gyfathrebu dwy ffordd er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl ac felly dylai ysgolion ddatblygu a gweithredu prosesau er mwyn cefnogi cyfathrebu dwy ffordd effeithiol â rhieni a gofalwyr.

7.2 Mae cyfathrebu'n effeithiol hefyd yn bwysig o ran rhoi sicrwydd i rieni a gofalwyr ynglŷn â chynnydd eu dysgwr, y ffordd y cyflwynir y cwricwlwm a'r cymorth neu'r her a gynnigir i ddysgwyr i gefnogi eu camau dysgu nesaf.

7.3 Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth ond yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyfathrebu â rhieni/gofalwyr a disgyblion sy'n oedolion ar ffurf adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd y flwyddyn. Mae [**Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion \(Cymru\) 2011**](#) yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid ysgolion a gynhelir roi adroddiad ysgrifenedig i rieni/gofalwyr pob disgybl sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol, ac i ddisgyblion sy'n oedolion; neu os bydd y pennaeth o'r farn bod amgylchiadau arbennig, i riant/gofalwr pob disgybl sy'n oedolyn.

7.4 Mae'r wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi yn yr adroddiadau ysgrifenedig hyn yn canolbwyntio ar gyflawniadau addysgol dysgwyr, asesiad o gyrhaeddiad dysgwr yn erbyn y disgrifyddion lefel yn y cyfnodau allweddol presennol ac adroddiad byr ar gynnydd y dysgwr.

7.5 Er y cydnabyddir bod adroddiad ysgrifenedig ffurfiol yn bwysig i lawer o rieni/gofalwyr a disgyblion sy'n oedolion, nid yw'r ffocws cul hwn ar un agwedd ar gyfleu cynnydd dysgwr yn cefnogi'r fath gyfathrebu ac ymgysylltu dwy ffordd effeithiol a ragwelir ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru nac yn cefnogi cynnydd dysgwyr unigol mewn gwirionedd.

7.6 O ystyried y bydd llawer o'r darpariaethau yn ***Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011")***, sy'n cyfeirio'n benodol at y cwricwlwm presennol megis lefelau a chyfnodau allweddol, yn ddiangen o dan y cwricwlwm newydd, rydym am ddiweddarau'r rheoliadau hyn i ddysgwyr a fydd yn trosglwyddo i'r Cwricwlwm i Gymru, gyda darpariaethau sy'n cefnogi ffordd fwy dynamig o roi gwybodaeth i rieni, gofalwyr a disgyblion sy'n oedolion, un sy'n hwyluso cyfathrebu ac ymgysylltu dwy ffordd ac sydd yn wir yn galluogi'r rhiant/gofalwr/disgybl sy'n oedolyn i chwarae rôl yng nghynnydd y dysgwr. O ystyried sut mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno, mae'n debygol y bydd Rheoliadau 2011 ar eu ffurf bresennol yn parhau i fod yn gymwys i'r blynyddoedd ysgol hynny nad ydynt yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru ac felly bydd dwy set o reoliadau sy'n ymdrin ag adroddiadau penaeithiad: un sy'n ymdrin â'r disgyblion hynny sy'n dilyn y Cwricwlwm i Gymru a Rheoliadau presennol 2011 a fydd yn parhau i fod yn gymwys i flynyddoedd ysgol nad ydynt yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r paragraffau canlynol yn manylu ar y newidiadau y bwriadwn eu gwneud mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru.

7.7 Rydym yn cydnabod manteision cyfathrebu ac ymgysylltu parhaus â rhieni/gofalwyr a disgyblion sy'n oedolion ynglŷn â chynnydd ac rydym am osod dyletswydd ar bennaeth i roi gwybodaeth i rieni/gofalwyr/disgyblion sy'n oedolion sy'n sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n effeithiol am gynnydd dysgwr unigol o ran cwricwlwm yr ysgol. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn credu y bydd angen i benaeithiad wneud trefniadau priodol yn eu hysgolion i gefnogi hyn ac y bydd angen iddynt hefyd sicrhau bod y person sydd yn y sefyllfa orau i ddeall a chyfleu gwybodaeth am gynnydd dysgwr yn gallu cyfrannu at y broses hon. Gall y person hwnnw fod yn athro, yn CADY¹, yn eiriolwr neu'n weithiwr cymdeithasol. Dyma'r materion rydym yn bwriadu ymdrin â nhw mewn canllawiau i gefnogi cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â rhieni /gofalwyr.

7.8 Er mwyn cydnabod mai ysgolion fydd yn gyfrifol am ddylunio eu cwricwlwm a'r trefniadau asesu cysylltiedig i gefnogi cynnydd dysgwyr, er y bwriadwn ragnodi manylion cyffredinol y meysydd rydym yn disgwyl iddynt eu cwmpasu pan fyddant yn rhoi gwybodaeth, ac eithrio gwybodaeth am gymwysterau ac absenoldeb sy'n cael ei phennu a'i chasglu'n genedlaethol, yr ysgolion fydd yn penderfynu ar union natur yr wybodaeth y byddant yn ei rhoi, gan adlewyrchu eu hamgylchiadau lleol, cwricwlwm yr ysgol ac anghenion dysgwyr. Nodwn isod ragor o fanylion am yr hyn rydym am i adroddiadau i rieni/gofalwyr neu ddisgyblion sy'n oedolion ei gynnwys:

- a) Crynodeb byr ynglŷn ag iechyd meddwl a llesiant emosiynol dysgwr yn gyffredinol
- b) Crynodeb byr o'i gynnydd o ran dysgu ar draws y cwricwlwm cyfan;
- c) Gwybodaeth am anghenion cynnydd yn y dyfodol / y camau nesaf i'r dysgwr unigol y bydd eu hangen i gefnogi ei gynnydd;
- d) Ychydig o gyngor ynglŷn a sut y gall rhieni/gofalwyr gefnogi cynnydd;
- e) Crynodeb byr o'r cymwysterau a enillwyd (lle y bo'n berthnasol) (fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2011 ar hyn o bryd);
- f) Crynodeb byr o bresenoldeb dysgwr (fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2011 ar hyn o bryd).

7.9 Dylai'r wybodaeth a ddarperir gael ei theilwra i'r dysgwr unigol a dylai ganolbwyntio ar gefnogi ei ddatblygiad a'i gynnydd.

¹ Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

7.10 Rydym hefyd yn credu y dylai'r trafodaethau a chanlyniadau prosesau sydd i'w rhoi ar waith gan ysgolion o dan y Cyfarwyddyd adran 57², Dealltwriaeth Gyffredin o Gynnydd, gael eu hystyried fel rhan o'r ystyriaethau cyffredinol o gynnydd dysgwr ac felly ddylanwadu ar yr adborth i rieni. Yn absenoldeb lefelau a chyfnodau allweddol, rydym yn credu y bydd hyn yn helpu i roi gwybodaeth gyd-destunol i rieni/gofalwyr ynglŷn â pha mor dda y mae eu plentyn yn ei wneud o'i gymharu â dysgwyr eraill yn ei ddosbarth / grŵp blwyddyn a disgwyliadau'r ysgol ynglŷn â'i gynnydd, gan gynnwys pa mor gyflym y mae'n gwneud cynnydd. Unwaith eto, rydym yn credu mai mater o arfer dda fydd hyn a byddwn yn rhoi rhagor o fanylion mewn canllawiau i gefnogi'r dull gweithredu hwn.

Gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth mewn ffordd amserol, hygyrch a phriodol

7.11 Er mwyn cefnogi adborth parhaus a datblygu cydberthynas effeithiol a pharhaus lle y gall rhieni/gofalwyr roi cymorth gartref, rydym am i ysgolion roi o leiaf un diweddariad ar gynnydd y tymor i rieni/gofalwyr/disgyblion sy'n oedolion sy'n cwmpasu'r manylion a nodir ym mharagraff 7.8. Tra bydd rhai ysgolion yn dewis rhoi'r diweddariad hwn yn ysgrifenedig o bosibl, ni fyddwn yn rhagnodi hyn, gan gydnabod y gall fformatau gwahanol gefnogi cynnydd yn fwy effeithiol yn achos ysgolion eraill.

Crynodeb Diwedd y Flwyddyn

7.12 Rydym yn cydnabod y bydd yn bwysig bod rhieni/gofalwyr/disgyblion sy'n oedolion a'r dysgwyr eu hunain, ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd, yn deall y cynnydd cyffredinol a wnaed yn ystod y flwyddyn academiaidd. Er ein bod yn gobeithio y bydd gwell cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni /gofalwyr/disgyblion sy'n oedolion a'r disgyblion eu hunain yn creu'r ddealltwriaeth hon drwy gydol y flwyddyn, rydym yn credu ei bod yn bwysig bod crynodeb o gyflawniadau a chynnydd yn ystod y flwyddyn yn cael ei roi ynghyd â chrynodeb o'r camau nesaf a sut y caiff y rhain eu cefnogi. Unwaith eto, bydd angen i'r adroddiadau hyn gwmpasu'r meysydd a nodir ym mharagraff 7.8.

7.13 Gan gydnabod bod darparu gwybodaeth mewn modd amserol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod rhieni/gofalwyr a disgyblion sy'n oedolion yn cael gwybodaeth am gynnydd dysgwr er mwyn helpu i roi cymorth a her, neu symud yn llwyddiannus i'w camau nesaf, byddwn yn ailadrodd y gofynion ynglŷn ag amseriad o ran darparu gwybodaeth yn Rheoliadau 2011 (sef rheoliadau 3(7) Adroddiad pennaeth ar ddiwedd y flwyddyn, rheoliad 4(2) Yr wybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid trefnu iddi fod ar gael, a rheoliad 5(4) Adroddiad disgybl sy'n ymadael yr ysgol. Yn yr un modd, mae'n bwysig sicrhau tegwch a hygyrchedd yr wybodaeth a roddir ac felly rydym yn cynnig y dylid ail-wneud cynnwys rheoliad 7 mewn perthynas â'r gofynion ynglŷn â chyfieithu gwybodaeth a dogfennau. Mae sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith i ddiogelu dysgwyr rhag niwed posibl mewn perthynas â rhoi gwybodaeth hefyd yn hollbwysig ac felly byddwn hefyd yn ail-wneud y gofynion presennol yn rheoliad 6 o Reoliadau 2011.

7.14 Mae arferion gorau yn dangos bod darparu gwybodaeth mewn fformatau gwahanol, sy'n diwallu anghenion rhieni orau, yn sicrhau gwell lefelau o ymgysylltu a byddwn yn cyngori ysgolion mewn canllawiau i roi sylw i hyn. Yn ogystal â chynnig rhywfaint o hyblygrwydd ynglŷn â darparu gwybodaeth, rydym am roi hyblygrwydd i ysgolion o ran sut y caiff yr wybodaeth ei darparu/cyfleu. Ar hyn o bryd, mae'r rheoliadau ond yn ei gwneud yn ofynnol i roi adroddiad ysgrifenedig ond rydym am i ysgolion allu rhoi gwybodaeth a

² Cyfarwyddyd a roddir yn unol ag adran 58 o Ddeddf 2021.

chyfathrebu mewn amrywiaeth o ffyrdd, sydd fwyaf priodol i amgylchedd yr ysgol a'r rhieni/gofalwyr/disgyblion sy'n oedolion. Nid ydym yn cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i wneud hyn mewn rheoliadau, gan y byddai'n anghymesur pe bai'n rhaid i ysgolion roi adroddiadau mewn sawl fformat gwahanol. Yn hytrach, bydd ein canllawiau yn cwmpasu bod yn rhaid i benaethiaid, wrth bennu prosesau/trefniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth, geisio ystyried anghenion y rhieni lle y bo modd o ran iaith, galluoedd llythrennedd, mynediad at TG ac ati a gallai hyn gynnwys ystyried rhoi gwybodaeth mewn fformat gwahanol megis drwy gyfarfodydd adolygu cynnydd disgybl, galwadau ffôn ac ati.

Adroddiad Gadael yr Ysgol

7.15 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn darparu ar gyfer rhoi gwybodaeth i ddisgybl sy'n gadael yr ysgol ar ôl yr oedran ysgol gorfodol (16 oed). Mae'n rhaid i bennaeth roi adroddiad cryno o gyflawniadau a chyrhaeddiad blwyddyn olaf y disgybl erbyn 30 Medi ar ôl diwedd y flwyddyn ysgol y gadawodd y disgybl yr ysgol. Rydym yn bwriadu cadw'r gofynion yn Rheoliadau 2011, gan gydnabod y gall Adroddiad Gadael yr Ysgol roi gwybodaeth bwysig i helpu i drosglwyddo i ddysgu pellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.